# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nos Iau, yr 28ain o Fawrth 2019**

**19:24: Presennol:** Cynghorwyr: Dafydd E Evans (Cadeirydd), Deryck Lewis, William N Owen, Gwen Lloyd, Aled Griffiths, Gareth Jones, Paul Hughes,

**19:25: Ymddiheuriadau:** Elwyn Vaughan, Gwyn Jones, Aeron Pughe, Gareth Owen

**19:26: Datganiadau o ddiddordeb:**

**19:27: Cyflwyno a derbyn cofnodion cyfarfod yr 28ain o Chwefror 2019**

**19:28: Materion yn codi o'r cofnodion:**

**19:28:1** Cynigiodd Aled Griffiths gywiriad i bwynt (19.23.3). Nid at Dilwyn Rees y dylid cysylltu ar gyfer y sbwriel yng nghilfan Cwmlline. Nodwyd y gallai trafodaeth am enwau staff Adran y Priffyrdd, Cyngor Sir Powys wedi esgor ar y dryswch hwn ac nid Dilwyn Rees Dinas Mawddwy oedd dan sylw.

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan Deryck Lewis ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.

**19:29 Cynllunio -** dim

**19:30 Eitemau i'w talu a materion ariannol**

**19:31 Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:31:1**: Adroddodd Gareth Jones ei fod wedi mynychu dau fforwm i gleifion. Cafwyd sicrwydd gan Fwrdd Hyfforddi Iechyd Powys na fyddai niferoedd y staff yn disgyn dan y nifer sy'n ofynnol i ateb y 7,000 o gleifion. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw i bawb lenwi'r ffurflen berthnasol yn y Blewyn Glas. Bydd cyfarfod i'r cyhoedd yng Nglantwymyn i ddilyn.

**19:31:2** Adroddodd Dafydd Evans ei fod wedi mynychu cyfarfod i lywodraethwyr y tair ysgol. Bydd yr ysgolion yn esiamplau o ran arfer da i ysgolion eraill o ganlyniad i adroddiad canmoladwy dros ben gan ESTYN a bydd y penaethiaid yn mentora mewn ysgolion eraill. Cafwyd cyflwyniad am y Cwricwlwm Newydd a ddaw i rym yn 2020. Ceir pwyslais ar dechnoleg i ateb gofynion y byd modern. Nodwyd nad oedd dim golwg o arian ychwanegol i gynnal y newidiadau hyn.

**19:31:3** Mynegwyd pryder gan Dafydd Evans ynghylch y diffyg cynnydd o ran y gwelliannau i Ysgol Glantwymyn. Ategwyd hynny gan Aled Griffiths gan y byddai'r plant yn colli allan o ran cyfleoedd awyr agored yn ystod yr haf. Er bod sicrwydd wedi'i gael bod y tendrau wedi mynd allan, darganfuwyd gan Paul Hughes nad oedd hyn wedi digwydd eto. Bydd Elwyn Vaughan yn ymchwilio i'r mater.

**19:32 Gohebiaeth** Dim

**19:33 Unrhyw fater arall**

**19:33:1:** Adroddodd Deryck Lewis fod yr ysbwriel wedi cael ei glirio o'r gilfan rhwng Cwmlline ac Aberangell gan y Cyngor Sir ond bod rhagor o ysbwriel wedi cyrraedd erbyn hyn gan olygu bod y cyflwr felly yr un fath ag o'r blaen. Awgrymwyd y dylid anfon llythyr at Dilwyn Rees.

**19:33:2:** Nododd Aled Griffiths fod coeden ar lawr ger Nant y Cyff ar yr hen ffordd i Aberangell. Cysylltir ag Adran y Priffyrdd.

**19:33:3** Nododd Dafydd Evans y byddai'r clerc yn mynychu dau gwrs sy wedi cael eu hargymell gan Un Llais Cymru. Awgrymodd Aled Griffiths y byddai'n fuddiol i ofyn i Stephen Tudor rannu o'i brofiad ynglŷn â chreu systemau ac ati ac y dylid trefnu i Stephen gyfarfod â'r clerc, gan dalu i Stephen am ei waith. Eiliwyd hyn gan bawb. Bydd Dafydd Evans yn cysylltu â Stephen.

**Caewyd y cyfarfod am 9.30**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, yr 2il o Fai am 7.30yh. (Cyfarfod yn lle cyfarfod Ebrill bydd hwn.)**